

“Pe gallai'r grefft bensaernïol wylo'r funud hon, capeli Cymru fyddai ei dagrau”.
Syr Simon Jenkins, “The Times”

DARGANFOD CAPELI YN LLANDUDNO

©CAPEL: CYMDEITHAS TREFTADAETH Y CAPELI (2005)
www.capeli.org.uk

Anghydffurfiaeth yng Nghymru

Yn dilyn y Diwygiad Protestannaidd yn Ewrop bu galw parhaus am fwy o ryddid i addoli ac yng Nghymru bu'r ymneilltuwyr yn cwrdd yn gyfrinachol o oddeutu 1600 i glywed Gair Duw yn cael ei bregethu yn eu hiaith eu hunain, yn rhydd o hualau'r ddefod eglwysig. Pan sefydlodd William Wroth yr eglwys annibynnol gyntaf yn Llanfaches, Sir Fynwy yn 1639, taniwyd gwreichionen a ymledodd dros y mynyddoedd fel tân gwyllt er gwaethaf erledigaeth lem yr awdurdodau eglwysig. Cafodd yr enw 'anghydffurfiwr' ei briodoli i'r offeiriaid eglwysig hynny a wrthodai gydymffurfio â'r Litwrgi Anglicanaidd yn unol â Deddf Unffurfiaeth 1662, a chawsant eu gyrru allan o'r eglwys. Parhawyd i erlid yr Anghydffurfwyr hyn (neu'r Ymneilltuwyr fel y'u gelwid hefyd) a'r gynulleidfa a'u dilynodd hyd at Ddeddf Goddefiad 1689 dan Gwilym o Orange. O hynny ymlaen, dechreuodd capeli ymddangos ym mhob cwr o Gymru, a'r sawl gwahaniaeth barn ynghylch athrawiaeth ac arfer yn arwain at amrywiaeth eang o enwadau. At ei gilydd, mae'n bur debyg yr adeiladwyd mwy na 6000 o gapeli yng Nghymru ac mewn nifer o drefi a phentrefi daethant yn galon ac enaid y gymuned roeddent yn eu gwasanaethu gan amlygu ysbryd o annibyniaeth genedlaethol. Heddiw, o fod ar un adeg i rad-dau helaeth yn elfen hanfodol o fywyd diwylliannol, gwleidyddol, addysgol a chrefyddol Cymru am fwy na 300 mlynedd, mae'r capeli yn dirywio a nifer ohonynt yn sefyll yn anghofiedig a diymgeledd tra bod eraill wedi'u dymchwel eisoes. Mae'n sicr bod eu pwysigrwydd hanesyddol yn gwarchod yr iaith Gymraeg a'r diwylliant cenedlaethol yn afesuradwy ac fel cydnabyddiaeth o hyn y cynhyrchwyd y gyfres hon o daflenni.

Darllen Pellach: Anthony Jones, Welsh Chapels (argraffiad diwygiedig 1996, Alan Sutton Publishing Ltd)
Gwyn Davies, Golau Gwlad: Cristnogaeth yng Nghymru, 200-2000 (2002, Gwasg Bryntirion)
Capel, Arweinyfr i'r Enwadau (2005, Capel)
D. Huw Owen, Capeli Cymru (2005, Y Lolfa)

Capeli a'u Gwahanol Fathau o Bensaerniaeth

Yn y 17eg a'r 18fed ganrif, ysguboriau a bythynnod wedi'u trawsnewid oedd y capeli cynharaf yn aml. Daeth y symbyliad am godi capeli pwrpasol oddi wrth y bobl eu hunain ac ystyrir y ffurfiau a ddewiswyd ganddynt yn aml fel math unigryw o gelfyddyd 'gyntefig', er bod nifer ohonynt hefyd wedi'u cynllunio gan benseiri proffesiynol. Dyma rai o'r mathau y gallwch ddod ar eu traws.

- 1800: Adeilad cynnar wedi'i godi'n bwrpasol gyda ffasâd wal hir neu gynllun sgwâr [A]
- 1830au: Capeli awditoriwm gyda ffasâd talcen [B]
- 1840au: Y Dull Clasurol [C]
- 1850au: Yr Adfywiad Gothig [CH]
- c1880: Cymysgedd Cynnar o Ddulliau [D]
- c1890: Afradlonedd Fictoraidd mawr [DD]



1. Capel Bedyddwyr Cymraeg y Tabernacl

Agorwyd y Tabernacl yn 1875 gan y Bedyddwyr, yr Anghydfurfwyr cyntaf yn 1813 i adeiladu capel yn Llandudno. Cafodd ei ehangu yn 1902 gan G A Humphries i gynnwys yr ysgoldy, y portico â'i bileri ïonig, a'r brif fynedfa newydd. Dyma adeilad tywodfaen ysbennydd a chlasurol sy'n gallu ymffrostio iddo dorri tair newydd droeion: y capel cyntaf yn y dref i'w gofrestru i weinyddu priodasau, y cyntaf i gael gweinidog preswyl ac yma y cafwyd yr Ysgol Sul gyntaf. Y tu mewn, ceir orielau'n ymestyn mewn modd anarferol o gwm-pas dau dransept ac mae'r fedyddfaen wedi'i lleoli'n uwch na'r arfer uwchben y 'sêd fawr'. Mae yma ystafell 'sychu' a gwisgo – sydd bron yn unigryw – i'r rheiny a drochwyd yn y sacrament fedyddio. Un o gyn-weinidogion y capel oedd y Parchg Lewis Valentine a ddaeth yn adnabyddus fel sefydlydd y Mudiad Cenedlaethol Cymraeg ac a garcharwyd am ei ran yn gwrthdystio yn erbyn adeiladu Ysgol Fomio'r Awyrlu Brenhinol ger Pwllheli yn 1936.




2. Eglwys Ddiwygiedig Unedig Christ Church (gynt Annibynwyr Cymraeg yna Saesneg)

Mae'r adeilad dull Gothig mawreddog hwn yn dyddio o 1858. Pan gafodd ei adeiladu gyntaf fe'i disgrifiwyd fel 'yr eglwys bertaf yn y dref'.


Yn dilyn difrod yn ystod storm tynnwyd ei feindwr ymaith. Y tu mewn mae 18 ffenestr liw hardd iawn.

Bellach mae'r gynulleidfa'n addoli yn Eglwys Unedig Gloddaeth ac yn ddiweddar fe'i gwerthwyd fel adeilad rhestredig.




3. Capel Cymraeg Unedig Seilo (Presbyteraidd Cymraeg gynt)

Mae Seilo, gyda'i gromennau tywodfaen anferth, yn codi fel cadeirlan faróc enfawr dros yr adeiladau o gwmpas, er nad yw lawer talach mewn gwirionedd. Adeilad llai oedd ar y safle cyn hyn ond oherwydd bod y galw am organ yn gofyn am adeilad mwy o faint, adeiladwyd y capel hwn yn ei le yn 1901-5. G A Humphries a gynlluniodd yr adeilad gyda'i du mewn traddodiadol a'i oriel odidog. Yn y cefn mae dau ysgoldy. Gan ei fod yn dal mwy na 1000, mae'n gyrchfan poblogaidd i gynulliadau mawr. Yn ddiweddar, fe'i dewiswyd ar gyfer cynnal gwasanaethau cydenwadol Anghydfurfwyr Cymraeg eu hiaith yn Llandudno, a golyga hyn bod rhai o'r capeli eraill yn segur.



4. Eglwys Unedig Gloddaeth (Presbyteraidd Saesneg gynt)

Y capel cyntaf ar y safle hwn oedd 'tabernacl tin' (1880), ond fel y tyfai'r gynulleidfa adeiladwyd yr ysgoldy'n gyntaf, yna'r capel presennol yn 1891. T G Williams o Lerpwl a'i cynlluniodd, yn gopi o eglwys Eidalaid yn angof. Mae'r eglwys yn adeilad hynod, yn enwedig felly o'r hyn aeth enw'r eglwys Eidalaid yn angof. Mae'r gofod 58 wrth 55 troedfedd, dan y to anferth conigol ei siâp a'i drawstiau 'olwyn cert' sy'n ymestyn o un ochr i'r llall, yn rhydd o unrhyw bileri cynnal. Mae yma bulpud anghyffredin o fawr a seddau wedi'u gosod mewn cylch o fewn cromlin 'acwstig'. Gellir ei ehangu ymhellach i gynnwys yr ysgoldy wrth rollo'r cysgodlenni pren ysbennydd yn ôl. Mae'r eglwys yn dal i feddiannu cynlluniau'r pensaer gwreiddiol.



5. Eglwys Emaniwel (Capel Methodistiaidd Cymraeg Ebeneser gynt)

Mae'r capel hwn a adeiladwyd gan W Beddoe Rees yn 1909 yn gwbl anghydnaws â'i leoliad. Ar yr olwg gyntaf, mae ei do cromennog yn

awgrymu mai crwn yw'r tu mewn a'i fod ar un adeg wedi'i ddo-drefnu gan seddau crom eithriadol o gain - ond ysywaeth, nid felly mwyach. Bu'n un o'r capeli harddaf erioed o ran y tu mewn, ond mae ei hanes diweddar wedi bod yn drafferthus.. Caewyd yr adeilad pan ddaeth y les i ben yn 1972, ond cafodd ei achub gan ddydd busnes i'w drawsnewid yn ganolfan ddiwylliannol. Yna cymerwyd y les drosodd gan Ganolfan Gristnogol Emaniwel (Cynulliadau Duw) a adferodd y capel i'w bwrpas crefyddol. Y tu mewn, mae'r pileri gwreiddiol, y gromen gron a'r cylch bychan o ffenestri crynion i'w gweld o hyd, yn ogystal â dwy ffenestr liw hyfryd. Mae'r tu mewn anghyffredin, crwn yn gadael gofodau onlog diddorol yng nghorneli'r cynllun llawr sgwâr, sy'n gweithredu fel tramwyfeydd, cegin ac ystafelloedd cyfarfod. Mae'r ysgoldy wedi'i leoli yng nghefn adeilad blaenorol.

6. Eglwys Fethodistaidd St John's

Adeiladwyd yr eglwys hon gan y Methodistiaid Wesleiaidd yn 1866, gyda chymorth grant o gronfa'r 'Watering Places Fund' a gyfrannodd at godi eglwysi mewn cyrchfannau gwyliau newydd. Adnewyddwyd yr eglwys yn yr 1960au. Yr adeg yma ail-agorwyd ffenestr y tu ôl i'r bwrdd cymun a oedd gynt wedi'i chau gan friciau, a gosodwyd ffenestr liw yma. Yn y transeptaau gallwch weld dwy ffenestr liw fendigedig a gynhyrwyd yn stiwdios gwydr lliw Helygain yng Ngogledd Cymru. Mae'r ffenestr orllewinol 'Wesleiaidd' yn nodedig dros ben. Mae gan yr eglwys do trawst gordd gwreiddiol bendigedig.

